



BETH AM YMUNO Â HELFA GNAU SIR GAERFYRDDIN



Rhagarweiniad

Pathew'r Cyll yw un o'r mamaliaid sydd fwyaf anodd dod o hyd iddynt yn Sir Gaerfyrddin. Yma, mae'n ymddangos eu bod yn hoffi coetiroedd bach gydag isdyfiant amrywiol (gan gynnwys coed cyll), gwrychoedd trwchus a phrysgwydd mieri. Pan fydd y cynefinoedd hyn wedi'u cysylltu â'i gilydd gall y pathewod symud trwy'r dirwedd.

Mae'r Rhaglen Genedlaethol Monitro Pathewod wedi amcangyfrif gostyngiad o tua 50% ym mhoblogaeth y pathewod yng Nghymru a Lloegr ers 2000. Yn y DU, mae eu hamrywiaeth hefyd wedi lleihau'n sylweddol, ac maent bellach yn bennaf yn ne Cymru a Lloegr. (Yn wir, mae arolwg a wnaed yn Sir Gaerfyrddin wedi dangos bod pathewod i'w cael yn ehangach nag y meddylwyd yn flaenorol.)

Felly, nid ydym yn deall achos y dirywiad yn llwyr ond gall dirywiad yn *ansawdd cynefinoedd* (h.y. mae'n anoddach iddynt ddod o hyd i fwyd a lleoedd i fridio) a mwy o *ddarnio cynefinoedd* (h.y. mae'n anoddach iddynt symud o gwmpas a dod o hyd i safleoedd newydd a phathewod eraill) fod yn bwysig.

Caiff pathewod felly eu dosbarthu fel anifeiliaid Agored i Niwed yng Nghymru, h.y. maent mewn perygl mawr o ddiffannu. Gan eu bod yn agored i niwed, mae helpu i ddarganfod ble maent yn byw yn bwysig er mwyn helpu i'w gwarchod.

Pathewod


Mae'r siawns sydd gennych o weld pathew yn brin. Maent yn anifeiliaid nosol, anaml y byddant yn dod i lawr i'r ddaear a gallant dreulio cymaint â 7 mis o'r flwyddyn yn cysgu.

Yn ffodus, mae pathewod yn gadael arwyddion amlwg iawn pan fyddan nhw'n bwyta cnau cyll – un o'u hoff fwydydd. Mae pathewod yn agor y cnau hyn tra byddant yn dal yn wyrdd, ar y goeden ac yn gymharol feddal i'w cnoi, ond mae'r plisg yn troi'n frown yn eithaf cyflym ar ôl iddynt gael eu gwaredu ac yn cwmpo i'r ddaear. Drwy chwilio am y plisg hyn mae'n bosibl darganfod ble mae pathewod yn byw.

Darganfyddwch fwy: <https://bit.ly/2QLTU77>

Hoffai Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin gael eich help i ddarganfod ble mae pathewod yn byw yn y sir...

Cofnodion Pathewod Sir Gaerfyrddin



Nid yw absenoldeb cofnod rhywogaeth o reidrwydd yn golygu nad yw'r rhywogaeth honno'n bresennol - dim ond nad oes unrhyw gofnodion ar glawr a chadw.

Mae angen eich help arnom i lenwi'r bylchau.

What Beth sydd angen I chi ei wneud

Felly sut y gallwch chi wybod bod pathewod yn byw ar eich pwys chi? Os oes gennych berthi coed cyll neu os oes coedwig gerllaw lle mae coed cyll, pam nad ewch chi ar helpa gnau?

Yr hydref neu'r gaeaf yw'r amser gorau I gynnal yr arolwg pan na fydd unrhyw ddail ar y coed a phan fydd yn haws dod o hyd i blisg cnau ar lawr y coetir.

1. Dod o hyd i goed cyll – mae angen i chi ddod o hyd i goed neu wrychoedd cyll cyn dechrau chwilio o'u hamgylch. Yn lleol, mae llawer o gyll mewn perthi a choetiroedd. Ond, gwnewch yn siŵr bod mynediad yn cael ei ganiatáu a'i fod yn ddiogel.

2. Dechrau chwilio – edrychwch o dan y coed am gnau cyll wedi'u cnoi a chasglwch y rhain er mwyn rhoi trefn arnynt nes ymlaen.

3. Astudio'r cnau – unwaith y byddwch wedi gorffen edrych am gnau, defnyddiwch ein canllaw i roi trefn ar y cnau yn ol y rhywogaethau gwahanol a allai fod wedi'u cnoi.

Gallwch ddefnyddio chwyddwydr, lens camera neu ochr gefn binocwlars i gael golwg agos ar yr olion dannedd.

Tynnwch ffotograff o'ch cnau yn agos ac anfonwch y delweddau, gyda manylion y lleoliad (cyfeirnod grid neu gôd post) i: bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk.


Byddwn yn cynhyrchu map o'r holl gnau pathew a gaiff eu nodi fel rhan o'r arolwg hwn.

Adnabod cnau cyll wedi'u cnoi

Mae gan gnau cyll sydd wedi'u cnoi gan bathewod ymyl fewnol lefn gydag olion dannedd ar ongl i'r twll ar arwyneb y gneuen, ac yn edrych rhywbeth yn debyg i glocsen.

Mae gan gnau cyll sydd wedi'u cnoi gan lygod y maes olion dannedd ar ymyl fewnol y gneuen a hefyd ar yr arwyneb, o amgylch ymyl y twll.

Mae gan gnau cyll sydd wedi'u cnoi gan lygod coch olion dannedd ar draws ymyl fewnol y gneuen, ond nid oes unrhyw farciau ar yr arwyneb o amgylch ymyl y twll.



Am fod gwiwerod ac adar yn fwy ac yn gryfach na chnoflod llai, byddant yn hollti cneuen gyll ar agor, gan chwalu'r plisgyn.

